

## CARADOG ap GRUFFYDD ap RHYDDERCH (bu farw 1081).

**Enw:** Caradog ap Gruffydd ap Rhydderch

**Dyddiad marw:** 1081

**Plentyn:** Owain ap Caradog

**Rhiant:** Gruffydd ap Rhydderch ap Iestyn

**Rhyw:** Gwryw

**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Milwrol

**Awdur:** John Edward Lloyd

Yr Rhydderch ab Iestyn, gŵr o ddylanwad yn Ne Cymru hyd ei farw yn 1033, a mab [Gruffydd ap Rhydderch](#), cydymgeisydd [Gruffydd ap Llywelyn](#), gan yr hwn y'i lladdwyd yn 1055.

Yng Ngwynllwg a Gwent yr oedd cartref y teulu; yn y rhanbarth hwn o Gymru y daw Caradog i'r golwg gyntaf, yn 1065, pryd y daeth ar warthaf tŷ hela'r iarll Harold yn Portskewet, gan ei ddistrywio ac anrheithio'r gymdogaeth - heb i neb ddial arno. Yr oedd o natur hyf ac anturiaethus; gan ddwyn i'w gof ei hun orchestion ei daid a'i dad, aeth rhagddo i geisio gorchfygu'r Deheubarth. Yn 1072 fe orchfygodd y tywysog a oedd yn teyrnasu, sef [Maredudd ab Owain](#), gan ei ladd mewn brwydr ar lannau'r afon Rhymni; yn 1078 gorchfygwyd [Rhys ab Owain](#) hefyd, olynnydd Maredudd ab Caint, ganddo. Eithr yn 1081 daeth trydydd gwrthwynebydd, ac un llawer mwy, i'w gyfarfod - [Rhys ap Tewdwr](#). Dyma bellach bethau'n arwain at frwydr enwog Mynydd Carn, rywle yng ngogledd Dyfed; yno trechwyd Caradog a'i gynghreiriaid yn llwyr gan [Rhys](#), a oedd wedi cael cymeradwyaeth [esgob Tyddewi](#) ac a gafodd hefyd gymorth [Gruffydd ap Cynan](#).

Ni chlywir mwy am Garadog; gadawodd fab, [Owain](#), a ymsefydlodd mewn awdurdod yn Gwynllwg maes o law gan sylfaenu llinach ddiweddarach [arglwyddi Cymreig Caerlleon](#).

### Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 372-3, 377, 384-5, 393

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Caradog ap Gruffydd](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2782139](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

